

No.

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd H.M. Payne (Is-gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson a N.B. Marshallsea.

Aelodau Cyfetholedig: M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), G. Scott (Addysg Gymraeg), E. Woodfield a I. Da Silva (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) a C.P. Franks.

### 179 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

### 180 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.J. Haines.

### 181 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd E. Goodjohn ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 5 – Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol: Perfformiad Chwarter 4 2023/24. Datganodd y Cynghorydd Goodjohn fuddiant personol sef ei fod yn fyfyrwr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro am y cyfnod yr oedd yr adroddiad yn ymwneud ag ef. Roedd natur y buddiant yn golygu bod y Cynghorydd Goodjohn yn aros yn y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

Gwnaeth y Cynghorydd W.A. Hennessy ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Rhif 4 ar y Rhaglen – Adroddiad Blynyddol Llyfrgelloedd. Datganodd y Cynghorydd Hennessy fuddiant oedd yn rhagfarnu sef ei fod yn Ymddiriedolwr Llyfrgell y Rhws ac felly gadawodd y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd C.P. Franks, nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor, ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Rhif 4 ar y Rhaglen – Adroddiad Blynyddol Llyfrgelloedd. Datganodd y Cynghorydd Franks fuddiant sy'n rhagfarnu sef ei fod yn Ymddiriedolwr Llyfrgell Dinas Powys a'i fod wedi cael gollyngiad i siarad ar faterion o'r fath.

182 CYFLWYNIAD – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CWRICWLWM  
CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESeg – CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE –

Cyflwynwyd y cyflwyniad gan Brif Bartner Gwella Consortiwm Canolbarth y De. Ymunodd yr Arweinydd Ardal – y Dyniaethau a'r Ymgynghorydd Cyswllt dros Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg â hi. Rhoddodd y cyflwyniad wybod i'r Pwyllgor am waith y Consortiwm i gefnogi addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) mewn ysgolion ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau fideo / astudiaethau achos gan yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Fictoria;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas;
- Ysgol Gynradd Evenlode;
- Ysgol Gynradd Sain Tathan; ac
- Ysgol Uwchradd Whitmore.

Gofynnodd y Cynghorydd W. Hennessy beth fyddai'n digwydd pe bai rhieni plentyn yn mynnu i'w plentyn beidio â bod yn rhan o'r gwersi addysg grefyddol. Mewn ymateb, dywedodd yr Ymgynghorydd Cyswllt fod y cwricwlwm CGM yn wahanol i addysg grefyddol yr oedd hawl gan rieni i dynnu eu plentyn ohoni. Roedd yn bwysig nodi bod y cwricwlwm CGM yn cael ei gyflwyno mewn ffordd plwraliaethol ac fel rhan o amcan critigol. Felly, nid oedd angen i unrhyw ddysgwr gael ei dynnu ohono oherwydd y dull gwahanol.

Dywedodd y Cynghorydd J. Lynch-Wilson y dylai'r Pwyllgor gael mwy o gyfranogiad gan ddysgwyr yn ei gyflwyniadau.

Dywedodd y Cynghorydd E.J. Goodjohn fod y cyflwyniadau fideo yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a bod y gwaith a oedd yn cael ei wneud a oedd yn meithrin goddefgarwch, dealltwriaeth a meddwl agored trwy'r ystodau oedran wedi creu argraff arni.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – BOD diolchiadau'r Pwyllgor yn cael eu trosglwyddo i'r ysgolion am eu cyflwyniadau fideo a nodi cynnwys y cyflwyniad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

183 ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYFRGELLOEDD (CDS) –

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau etholedig o weithgarwch gwasanaethau llyfrgell rhwng 2022/23 a 2023/24.

No.

Diben Adroddiad Blynyddol y Llyfrgelloedd oedd rhoi trosolwg o'r ffordd yr oedd yn gweithredu, gwerthusiad o'i gyflawniadau allweddol a sylfaen dystiolaeth ar gyfer dangos yr effaith gadarnhaol yr oedd gwasanaethau llyfrgell y Cyngor wedi'i chael ar gymunedau.

Roedd yr adroddiad llawn yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dywedodd y Cyngorydd C. Franks, nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor ond gyda chaniatâd i siarad, ei fod yn siarad fel Ymddiriedolwr ar gyfer Llyfrgell Dinas Powys. Dywedodd yr hoffai i'r llyfrgell gael ei chynnwys pan oedd digwyddiadau'n cael eu cynnal yn y llyfrgelloedd mwy. Dywedodd y Cyngorydd Franks fod yr ystod o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn Llyfrgell Dinas Powys yn cynyddu a bod rhaglen chwe wythnos ar gyfer gwyliau'r haf a oedd yn cynnwys amser stori a sgrabl babanod er enghraifft. Tynnodd y Cyngorydd Franks sylw at rôl y llyfrgelloedd wrth ddosbarthu bagiau gwastraff ac ailgylchu a thynnodd sylw at y cynnydd yn nifer y bagiau'n cael eu dosbarthu. Fel pwynt olaf, dywedodd y Cyngorydd Franks fod cefnogaeth ardderchog gan y cynorthwy-ydd llyfrgell peripatetig ac roedd yn ddiolchgar iawn am ei gefnogaeth a'i arweiniad. Mewn ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau, o ran ymgysylltu ar draws yr holl lyfrgelloedd, mai dyna un o'r cyfrifoldebau ar gyfer rheolwr newydd y Gwasanaeth Diwylliannol a Llyfrgelloedd. Byddai'r rôl hefyd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad ynghylch y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y llyfrgelloedd.

Diolchodd y Cyngorydd H. Payne i staff a gwirfoddolwyr y llyfrgelloedd ac roedd yn ddiddorol gweld sut roedd y llyfrgelloedd yn esblygu. Roedd yr esblygu'n cynnwys y mathau newydd o glybiau a oedd ar gael fel Minecraft ac adeiladu Lego. Calonogol felly oedd gweld y Gwasanaethau Llyfrgell yn canolbwyntio ar y gofynion yn y gymuned.

Diolchodd y Cyngorydd N. Marshallsea hefyd i'r staff a'r gwirfoddolwyr a soniodd am bwysigrwydd llyfrgelloedd wrth wella bywydau plant ac oedolion ac yn arbennig mewn perthynas ag annog plant i ddysgu Cymraeg. Gofynnodd y Cyngorydd Marshallsea a fu unrhyw ystyriaeth ynghylch y posibilrwydd o lyfrgell ddynol. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod sesiwn wedi'i chynnal y llynedd o ran llyfrgell ddynol, a oedd yn cynnwys cyfranogwyr o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn y Barri lle roedd penseiri a dylunwyr adeiladau'n gallu dod i'r llyfrgell i ateb cwestiynau. Roedd yn bwysig bod y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig gan y Gwasanaethau Llyfrgell yn cael eu marchnata. Enghraifft o hyn oedd y wefan newydd ar gyfer y Lle Gwneud, y gellid dod o hyd iddi ar-lein yn [www.vogmakerspace.co.uk](http://www.vogmakerspace.co.uk).

Dywedodd y Cyngorydd A. Asbrey, fel gwirfoddolwr i Lyfrgell Dinas Powys ers dros chwe blynedd a fu'n llwyddiannus iawn ac wedi tyfu dros y cyfnod hwnnw, fod pryder ynghylch y ddibyniaeth ar wirfoddolwyr. Felly, dywedodd y Cyngorydd Asbrey, pe bai cyllid ar gael, y byddai'n cael ei werthfawrogi pe bai modd i hynny gael ei wario ar redeg llyfrgelloedd.

Gofynnodd y Cyngorydd E. Goodjohn beth oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â rhai ardaloedd o'r Barri lle'r oedd yn haws i bobl ymweld â Llyfrgell Caerdydd yn

No.

hytrach na'r Barri. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau mai un gweithgaredd yr oedd y Cyngor yn ei wneud i gyrraedd y cymunedau anodd eu cyrraedd oedd cyflwyno gwasanaeth llyfrgell deithiol. Y peth arall a oedd wedi cael ei dreialu yn ystod Covid oedd cyflwyno gweithgareddau y tu allan i leoliad llyfrgell drwy ddefnyddio ysgolion a lleoedd fel Pier Penarth. Roedd y gweithgareddau hynny wedi bod yn llwyddiannus yn enwedig o ran plant iau a'u helpu i bontio'n ôl i'r ysgol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â Llyfrgell y Barri yn cael ei chynnwys fel rhan o'r cynllun Cerdyn C newydd, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth nad oedd yn siŵr ac y byddai'n gwirio a oedd yn rhywbeth y gallai'r Cyngor ei wneud.

Gofynnodd y Cynghorydd R. Thomas (Cadeirydd) beth arall y gellid ei wneud er mwyn annog pobl iau i wirfoddoli yn y Gwasanaethau Llyfrgell. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gwirfoddoli mewn rhai ffyrdd yn gaethiwus ac roedd y Cyngor wedi llwyddo i gynnal ymgysylltiad drwy'r ysgolion uwchradd. Roedd hynny wedi arwain at greu grwpiau cymunedol â diddordebau penodol ac roedd yn rhywbeth y byddai'r Cyngor yn parhau i'w dyfu a fyddai'n cefnogi gwirfoddoli.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI cynnwys Adroddiad Blynnyddol y Llyfrgelloedd a'r cynnydd a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y gwasanaeth yn ystod y cyfnod.
- (2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod y Cabinet yn goruchwylio perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell a'i effaith yn ystod y cyfnod ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

#### 184 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2023/24 (CDS) –

Cyflwynodd yr adroddiad ar berfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024) tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynnyddol (CCB) (2023/24) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Bwriad y cyflwyniad atodedig oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd blwyddyn mor gynnar â phosibl. Roedd hyn cyn yr Hunanasesiad Blynnyddol manylach ar gyfer 2023/24 a fyddai'n cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024.

No.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 3 o Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn Ch4 a phriodolwyd statws perfformiad Oren i un Amcan Lles (Amcan Lles 1). Roedd hyn yn cyfleu'r cynnydd da a wnaed hyd yma wrth gyflawni ymrwymïadau CCB y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Priodolwyd sgôr perfformiad Gwyrdd i 91% (463 allan o 507) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yn CCB y Cyngor gan gyfleu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Priodolwyd statws Coch i 9% (44) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O'r 161 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 85 o fesurau lle roedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 46% (39) ohonynt, statws Oren i 14% (12) ohonynt, a statws Coch i 40% (34) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 76 o fesurau gyda 56 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau a oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2022/23, ac nid oedd data ar gael ar gyfer 20 o fesurau.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 97.27% (107 allan o 110) ohonynt a statws Coch i'r 2.73% (3) olaf. O'r 18 o fesurau a adroddwyd, lle roedd statws Coch, Oren, Gwyrdd yn berthnasol, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 44.45% (8), priodolwyd statws Oren i 33.33% (6) a phriodolwyd statws Coch i 22.22% (4).

Er mwyn hwyluso cyfeirio, tynnodd eithriadau perfformiad yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu sylw at statws presennol y camau perfformio Coch a nodwyd yn y chwarterau blaenorol i ddangos cyfeiriad teithio ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai hyn yn galluogi'r Aelodau i fesur yn gyflym a oedd camau unioni arfaethedig wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu'r camau hyn. Roedd y dull hwn o adrodd eithriadau yn adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan yr Aelodau Etholedig i waith monitro perfformiad y CCB.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Wedi ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd N. Marshallsea a oedd unrhyw gyllid ar gael i gefnogi ysgolion a'r gwaith gyda'r bartneriaeth natur leol. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod staff cymorth ar gael i gynorthwyo ysgolion fel rhan o'r Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai staff yn mynd i ysgolion i roi cyflwyniadau i blant ar y cynlluniau sydd ar gael a sut y gallent gymryd rhan mewn helpu natur. Yn ogystal, roedd cymorth ar gael drwy Brosiect Sero y Cyngor ac roedd cymorth y tu ôl i'r llenni i gynorthwyo ysgolion i gael cyllid grant.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn am y llithriad wrth fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n cyflwyno fel rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na

No.

Hyfforddiant. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei hanfon y tu allan i'r cyfarfod.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r model cyllido ysgolion arbennig, dywedodd y Cyfarwyddwr fod cynlluniau i edrych ar y fformwla gyllido.

Gwnaeth y Cynghorydd E. Goodjohn sylw hefyd ar y gwaith cadarnhaol ar addysg Gymraeg a oedd wedi bwrw ei darged. Gofynnodd hefyd pryd fyddai'r modiwl IDev ar gael i staff y Cyngor i'w cynorthwyo gyda'r Gymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Dywedodd yr Aelod Cyfetholedig, I. Da Silva, fod sylwadau wedi'u codi ynghylch ansawdd cynhyrchion mislif mewn ysgolion a gofynnodd a ellid ymchwilio i hynny. Mewn ymateb cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai adolygiad o ansawdd y cynhyrchion yn cael ei gynnal.

Yn olaf, cytunwyd i drefnu ymweliad Pwyllgor ag Ysgol Y Deri.

Nid oes unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2023/24 fel y'u haliniwyd yn Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.